

# Pwyllgor Enwi a Chymeradwyo Cymru: Cofnodion

16 Mawrth 2018, 11:30-12:30

## Yn bresennol

Simon Matthews (SM)	Cadeirydd, Llywodraeth Cymru
Aeddan Davies (AD)	Llywodraeth Cymru
Kathryn Jenkins (KJ)	Llywodraeth Cymru
Ben Chapman (BC)	JSL
Andrew Cormack (AC)	JSL
Andrew Evans (AE)	Cyngor Sir Caerfyrddin

## Ymddiheuriadau

Daniel Hurford                      CLILC

## GDPR a gov.wales/llyw.cymru

1. Trwy BC, dywedodd SM wrth y Pwyllgor fod ICANN a Nominet yn ymgynghori ar newid i'r defnydd o ddata cofrestru oherwydd GDPR.
2. O ran GDPR a data personol, dywedodd AC wrth y Pwyllgor mai sefydliadau yn unig sy'n gwneud cais gam amlaf am .gov.wales a llyw.cymru. Gallai fod gennych o bosibl sefydliad cymunedol bach lle mae swyddfa'r clerch yn ei gartref, gyda'i fanylion yn cael eu cyflenwi yn hytrach na swyddfa'r sefydliad. Awgrymodd AC mai'r ffordd orau fyddai cysylltu â'r bobl hyn yn uniongyrchol i weld a ydynt am i'w manylion gael eu dileu.
3. Cytunodd y Pwyllgor i barhau i fonitro ymgynghoriad Nominet o ran .cymru a .wales.

## Aelodau'r Pwyllgor

4. Dywedodd SM wrth y pwyllgor fod Del Morgan yn ymddeol o'i rôl yn Un Llais Cymru a thrwy hynny o bwyllgor WNAC. Mae SM wedi cysylltu ag Un Llais Cymru i weld a hoffai enwebu rhywun i gymryd lle Del ar y Pwyllgor

## Materion heb eu datrys

5. Cadarnhaodd BC mai dim ond un mater sydd heb ei ddatrys (ers i gadeirydd blaenorol WNAC adael ei swydd). Sef parthau a gafodd eu sefydlu fel parthau cyngor, ond yn cael eu rheoli gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn golygu mai'r farn yw mai parthau o dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru ydynt. Byddai hyn felly'n creu cyfres o broblemau ynghylch Whois, Tystysgrifau, Perchnogaeth, amlygrwydd etc.
6. **Cam gweithredu** : SM i ymchwilio ymhellach gyda ffyrdd gyda'r wybodaeth ofynnol gan BC.

## Unrhyw fater arall

7. **Cam gweithredu** : SM i roi fersiwn electronig o'r Memorandwm o Gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a JISC i BC.
8. Gofynnodd AD i BC a fyddai modd gwneud newidiadau i dempled yr e-bost a anfonir allan wrth dderbyn parth. Esboniodd AD y dylai ceiswyr fod yn ymwybodol y dylai e-bost gael ei sefydlu ar y parthau y maent wedi gwneud cais amdanynt.

9. Cam gweithredu: BC i ddarparu templedi er mwyn i AD ac SM eu golygu a'u dychwelyd.